**Carl Sargeant** AC/AM
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref CS/00498/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Tŷ Hywel,
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

12 Ebrill 2017

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr 27 Mawrth yn gofyn am fy marn am y materion a godwyd gan y ddeiseb Cydnabod Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant (Deiseb P-O5-751).

Yng ngoleuni datblygiadau diweddar, adolygodd Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru ei safbwynt ar Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth. Mae dieithrio plentyn oddi wrth riant yn un o lawer o fathau o gam-drin emosiynol sy'n gallu effeithio'n andwyol ar blant ac fe gydnabu'r Rhwydwaith yr effaith sylweddol y gall y math hwn o ymddygiad ei chael ar lesiant emosiynol plentyn.

Er hynny, nid yw'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol o'r farn y dylid cydnabod bod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn ffurf ar gam-drin emosiynol. O dan y ddeddfwriaeth bresennol mae gan y llys teulu ystod o bwerau eisoes i ymdrin ag achosion o ymddygiad dieithrio a lle bo'n briodol, gall achosion gael eu hystyried, ac mae achosion wedi cael eu hystyried, gan awdurdodau lleol Cymru o dan weithdrefnau amddiffyn plant.

Mae gan y llys ddisgresiwn eang i wneud trefniadau i ddiwallu anghenion plentyn ac mae ganddo'r pŵer i ofyn i CAFCASS Cymru baratoi adroddiad lles ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r plentyn neu'r teulu. Mae ymarferwyr CAFCASS Cymru, fel gweithwyr cymdeithasol cymwysedig proffesiynol, wedi'u hyfforddi i ddeall a chydnabod y potensial ar gyfer gelyniaeth ddifaddeuant gan barti mewn achosion ysgaru neu wahanu lle bo gwrthdaro uchel rhwng y rhieni.

Bae Caerdydd
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lle bo gorchymyn llys wedi'i sefydlu i amddiffyn plentyn lle mae dieithrio plentyn oddi wrth riant yn bodoli, mae gan y llys bŵer i orfodi dirwy neu gyfnod o garchar os caiff gorchymyn ei dorri.

Yn gywir

**Carl Sargeant** AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children